

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Canolfan Feddygol Radyr

Dyddiad y gweithgarwch: 20 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Feddygol Radyr fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae gan y practis chwe meddyg teulu ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol i bobl Radyr a'r cyffiniau.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis ac un o'r meddygon teulu ar 20 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gfael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom holi'r practis am y ffordd y mae'n gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd rheolwr y practis a'r meddyg teulu nifer o fesurau a oedd wedi'u rhoi ar waith yn y practis er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel i gleifion yr oedd angen gwasanaethau arnynt yn ystod y pandemig. Cafodd system un ffordd drwy'r adeilad ei gorfodi a chafodd amseroedd apwyntiadau eu gwasgaru er mwyn helpu i osgoi cael gormod o bobl yn yr ardaloedd aros. Mae sticeri a phosteri i atgoffa'r cleifion am y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod ar y llawr a'r waliau. Mae'n ofynnol i'r cleifion a'r staff wisgo masg bob amser, ac mae hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff dyddiol wedi'u cyflwyno ar ddechrau'r pandemig, er mwyn rhoi gwybod i'r staff am y mesurau newydd a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod Rhestr Wirio Diogelwch COVID-19 wedi'i chreu i ddogfennu'r camau a gymerwyd i liniaru'r risgiau, a gwelsom fod y rhestr hon wedi'i defnyddio'n rheolaidd dros y 12 mis diwethaf fel adnodd archwilio i gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus.

Dywedwyd wrthym mai un o'r newidiadau mwyaf a wnaed yn y practis oedd cynnig mwy o opsiynau digidol i gleifion yn lle apwyntiadau wyneb yn wyneb traddodiadol, er mwyn helpu i leihau nifer y cleifion a oedd yn dod i'r adeilad. Gallai cleifion gael ymgynghoriadau ar-lein drwy eConsult¹, a chafodd rhai ymgynghoriadau fideo eu cynnal hefyd. Parhawyd i gynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb i gleifion lle roedd y meddygon teulu o'r farn bod eu hangen, yn dilyn y broses brysbennu gychwynnol dros y ffôn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod addasu i'r newidiadau hyn, a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil hynny, yn her allweddol i'r practis.

Esboniodd rheolwr y practis fod tair ystafell driniaeth ar y llawr daear wedi'u clustnodi'n ystafelloedd 'COVID-19', lle y gallai cleifion yr amheuwyd bod ganddynt COVID-19 ac afiechydon heintus eraill gael eu gweld gan glinigydd. Cafodd pob claf arall ei weld i fyny'r grisiau mewn ardal gwbl ar wahân i'r ystafelloedd 'COVID-19'. Dywedwyd wrthym y cafodd cleifion a oedd yn gwarchod neu'n agored i niwed eu nodi. Cynigiwyd ymgynghoriadau o bell iddynt yn y lle cyntaf, neu apwyntiadau yn gynnar yn y bore er mwyn sicrhau eu bod wedi gadael y practis cyn i gleifion gyrraedd ar gyfer amseroedd apwyntiadau arferol y dydd. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn tri chartref gofal lleol, a pharhaodd ymweliadau drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn cael

¹ <https://econsult.net/nhs-patients>

eu cynnal ar y cyd gan y practis a'r cartrefi gofal, gan ddilyn canllawiau ar gyfer pob ymweliad, e.e. sicrhau bod y Cyfarpar Diogelu Personol priodol yn cael ei wisgo, a bod y rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiau rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom hefyd holi'r practis am y newidiadau y mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi Atal a Rheoli Heintiau a oedd yn disgrifio'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau yn y practis. Roedd y polisi hwn wedi cael ei adolygu yn flynyddol. Cawsom hefyd gopi o restr wirio atal a rheoli heintiau, a oedd yn cael ei chwblhau'n chwarterol, ac a gwblhawyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2021. Roedd y rhestr wirio yn gynhwysfawr, ac yn gweithredu fel adnodd archwilio i fonitro cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y practis. Dywedwyd wrthym fod unrhyw faterion a nodwyd o'r archwiliadau yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd wythnosol y meddygon teulu sy'n bartneriaid, er mwyn codi ymwybyddiaeth a chytuno ar ddatrysiad. Gwelsom fod archwiliadau hylendid dwylo chwarterol wedi'u cynnal, ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi yn ystod yr archwiliadau a gwblhawyd yn ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar atal a rheoli heintiau, er mwyn eu helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod fideos ar sut i wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol (PPE) wedi'u dangos i bob aelod o'r staff clinigol ar ddechrau'r pandemig, a bod posteri yn codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau cywir wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis. Dywedwyd wrthym er nad yw'r practis erioed wedi rhedeg allan o stoc PPE, y bu anawsterau i ddechrau o ran cael gafael ar gyflenwadau gan y bwrdd iechyd. Mae hyn wedi'i ddatrys ers hynny.

Dywedwyd wrthym fod staff yn dod i mewn i'r adeilad drwy fynedfa ochr ar wahân ers dechrau COVID-19, er mwyn helpu i leihau'r risg o groes-heintio rhwng y staff a'r cleifion. Caiff tymheredd y staff ei gymryd cyn iddynt ddod i mewn i'r adeilad a'i gofnodi'n ddyddiol, er mwyn helpu i gadw golwg am symptomau COVID-19. Gwelsom yn y dystiolaeth a roddwyd i ni gan y practis fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael profion llif unffordd cyflym gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar, er mwyn helpu i nodi staff sy'n heintus ond nad oes ganddynt unrhyw symptomau.

Cawsom gopi o bolisi a dogfen ganllaw COVID-19 a grëwyd gan y cwmni allanol sy'n gyfrifol

am bob agwedd ar lanhau yn y practis. Roedd y ddogfen yn nodi'r rheolaethau a'r prosesau a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau ac atal lledaeniad COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys glanhau ardaloedd â thraffig uwch yn fwy rheolaidd a thrylwyr, gan gynnwys dolenni drysau, canllawiau, cadeiriau a chyfarpar swyddfa. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd o lendid y practis wedi'u cynnal, ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi gan y practis.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd holi'r lleoliad am y ffordd y mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn nodi'r aelodau hynny o'r staff a allai wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Gwelsom fod un aelod o'r staff wedi cael ei nodi'n risg uchel a bod cyfres o fesurau rhagofalus wedi'u rhoi ar waith i'w ddiogelu. Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y pandemig heb amharu braidd dim ar y gwasanaeth.

Cadarnhaodd rheolwr y practis a'r meddyg teulu fod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi parhau i gael eu darparu yn y practis hyd yn oed pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd hyn yn cynnwys imiwneiddiadau rheolaidd ar gyfer babanod a phroffion cymhareb ryngwladol wedi'i normaleiddio (INR). Yr unig wasanaethau yr effeithiwyd arnynt oedd y gwasanaethau fflebotomi, a gafodd eu hatal am gyfnod byr ar ddechrau'r pandemig, a mân lawdriniaethau, a gafodd eu hatal yn sgil pryderon am gyswllt agos. Cadarnhaodd y meddyg teulu fod y data a'r canllawiau ar heintiau lleol yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd er mwyn asesu pryd y gellir cynnal mân lawdriniaethau unwaith eto.

Dywedwyd wrthym fod y gallu i gael gafael ar weithwyr iechyd proffesiynol ehangach wedi amrywio yn ystod y pandemig. Roedd Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl wedi dechrau gweithio'n agos gyda'r practis ychydig cyn dechrau COVID-19 yn y DU. Ni fu modd i'r swyddog weithio o'r adeilad yn ystod y pandemig, ond parhaodd atgyfeiriadau, a dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi bod yn gymorth mawr i gleifion a fu'n dioddef yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bu'n anodd cael cymorth a gwneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) er mwyn helpu pobl ifanc a fu hefyd yn dioddef. Bu'n anodd cyfathrebu â'r ymwelydd iechyd a benodwyd i'r practis ar ddechrau'r pandemig hefyd, er bod hynny wedi gwella.

Gwnaethom siarad am y trefniadau clwstwr ²a'r cymorth a oedd ar gael yn ystod y pandemig. Mae'r practis yn un o wyth practis yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd. Dywedwyd wrthym mai enghraifft gadarnhaol o'r clwstwr yn cydweithio'n dda oedd y gwaith a wnaed fel rhan o brosiect peilot a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau y tu allan i oriau yn y clwstwr. Ymhlith y gwelliannau a wnaed oedd mynediad a rennir at systemau clinigol pob practis yn y clwstwr, gan ddarparu gwasanaeth mwy amserol ac effeithlon i gleifion a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

² Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.